**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/5824/19

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Ionawr 2020

Annwyl Llyr,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith diwyd a manwl wrth ystyried goblygiadau ariannol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Rwy'n cydnabod y 9 o argymhellion a wneir gan y Pwyllgor yn ei adroddiad craffu, a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2019, ac amgaeaf f'ymateb i bob un ohonynt yn Atodiad A.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn gefnogol i'n dull o ddatblygu amcangyfrifon o gost a manteision y Bil drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff y GIG ac awdurdodau lleol, a bod y Pwyllgor o'r farn y bydd hyn yn ein helpu i weithredu'r newidiadau diwylliannol y mae'r Bil am eu cyflawni.

Mae nifer o argymhellion y Pwyllgor yn ymwneud â meysydd lle na fu'n bosibl meintioli costau a manteision newidiadau diwylliannol mewn modd ystyrlon. Rwy'n parhau'n gwbl argyhoeddedig na ddylid ceisio cynnal y drafodaeth am ansawdd a gonestrwydd o fewn fframwaith sy'n seiliedig ar werth ariannol, gan na fyddai hynny'n cymryd i ystyriaeth y ffaith na ellir dadansoddi'r manteision, a fydd yn deillio o gyflwyno'r ddwy ddyletswydd hyn, mewn modd ariannol heb iddynt golli eu hystyr, er fy mod yn cydnabod rôl graffu a diddordeb y Pwyllgor. Mae'r rhan fwyaf o'r manteision y disgwylir iddynt ddeillio o ddarpariaethau'r Bil yn rhai nad ydynt yn ariannol – manteision ydynt sy'n ymwneud â sicrhau gwell gwasanaethau, profiadau, a chanlyniadau. Er y bydd y pethau hyn o fantais wirioneddol a sylweddol i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd, ac i'r rheini sy'n eu darparu, ond nid oes modd eu hystyried fel manteision ariannol.

O ganlyniad, ni fu'n bosibl imi dderbyn yn llawn bob un o argymhellion y Pwyllgor yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl iddynt, ac ym mhob achos rydym wedi cadw cyn belled â phosibl at yr egwyddorion a'r rhesymeg sy'n sail i'n broses benderfynu wrth inni wrth fynd drwyddi.

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr eiriau o rybudd y Pwyllgor ynghylch cywirdeb yr amcangyfrifon o gostau. Rwy'n awyddus i bwysleisio f'ymrwymiad parhaus i'w monitro'n ofalus iawn, a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid allweddol i'w hadolygu'n rheolaidd yn ystod y cyfnod gweithredu.

Yn olaf, hoffwn roi gwybod fy mod wedi cyflwyno tri gwelliant gan y Llywodraeth i'r Bil ar 2 Rhagfyr 2019, ac y byddaf hefyd yn cyflwyno cyfres arall o welliannau yn ystod Cyfnod 2. Bydd unrhyw effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn yn cael eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddwn yn ei gyflwyno ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn copïo pob llythyr at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Atodiad A: Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).**

Ar 3 Gorffennaf 2019, ystyriodd y Pwyllgor Cyllid oblygiadau ariannol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), ac ar 15 Tachwedd fe gyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad craffu. Mae'r ddogfen hon yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'r 9 o argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwnnw.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach yn dadansoddi ac yn amcangyfrif buddion y Bil, a nodir fel ysgogwyr allweddol ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth. Dylid cynnwys y wybodaeth hon, a ddylai gynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o werthoedd, mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod**

Cyn cyflwyno'r Bil, cyflawnwyd gwaith sylweddol o ran ymchwilio i'r dystiolaeth a oedd ar gael, gan ddod i'r casgliad o ran y pwynt hwn y byddai unrhyw ddadansoddiad o sensitifrwydd mewn perthynas â hyn yn rhy gyffredinol i fod yn ystyrlon yn ymarferol oherwydd y diffyg data am y manteision sy'n ymwneud â'r gost o osgoi darparu gofal iechyd o ansawdd gwael.

Manteision anariannol yw'r rhan fwyaf o'r manteision y disgwylir iddynt ddeillio o ddarpariaethau'r Bil; manteision ydynt sy'n ymwneud â gwell gwasanaethau, profiadau, a chanlyniadau. Mae'r pethau hyn o fudd gwirioneddol i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, yn ogystal â'r rheini sy'n eu darparu, ond nid yw'n hawdd eu mesur mewn modd ariannol, ac ni fyddai gwneud hynny'n rhoi darlun cywir o'r manteision. Wrth gynhyrchu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel y'i cyhoeddwyd, rydym wedi ceisio sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng asesiad o'r costau, wedi eu meintioli, yr ydym yn rhagweld y byddant yn deillio o'r ddeddfwriaeth, a'r risg o gyflwyno amcangyfrif diystyr.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried cwmpas y rhaglen monitro a'r gweithgarwch gwerthuso a fydd yn gallu mesur manteision anariannol y Bil. Bydd hyn yn cynnwys y dangosyddion penodol sydd wedi eu meincnodi y disgwylir iddynt allu dangos gwelliannau mesuradwy yn ystod y cyfnod ôl-weithredu.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i'n hymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd cyfran sylweddol o'r costau sy'n deillio o ofynion y Bil yn cael eu hamsugno gan randdeiliaid, fel cyrff y GIG heb nodi'r goblygiadau tebygol. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod**
Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu asesiad priodol o'r costau a'r manteision tebygol a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth, ac fe'i datblygwyd drwy

ymgysylltu’n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae’r asesiad hwn yn dod i’r casgliad bod y dyletswyddau a roddir ar gyrff y GIG drwy’r Bil yn rhai priodol a chymesur. Mae’r asesiad hefyd yn cynnwys, lle y bo’n bosibl, gostau cyfleoedd o ganlyniad i’r ffaith bod darpariaethau yn y Bil yn cynnwys rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant, er mwyn iddynt allu ymgorffori’r ffyrdd newydd o weithio yn eu gwaith.

Mae Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn ddadansoddiad sy’n ymwneud â gwerth am arian - byddai ymestyn y dadansoddiad i gynnwys ystyried sut y bydd y costau hyn yn cael eu hariannu yn symud y tu hwnt i’r hyn y mae’r asesiadau wedi cael eu dylunio i’w wneud a’u pwrpas. Wrth gwrs, mae materion sy’n ymwneud â bod yn fforddiadwy, a chyllid, yn ystyriaethau pwysig i Lywodraeth Cymru, ond byddant o ddiddordeb i’r Cynulliad, ac felly byddant yn cael eu monitro’n agos yn ystod y cyfnod gweithredu.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i’n hymateb i’r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 3.** Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylid gwneud gwaith pellach mewn perthynas â’r costau parhaus sy’n debygol o godi o’r ddyletswydd ansawdd, nad ydynt yn cael eu meintioli yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai gynnwys dadansoddiadau o sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o werthoedd, a chynnwys hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir yng Nghyfnod 2.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod**

Rydym yn parhau o’r farn y bydd y costau parhaus sy’n codi o’r ddyletswydd ansawdd yn cael eu pennu gan mwyaf gan benderfyniadau a gymerir gan gyrff unigol y GIG, ac nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddweud ymlaen llaw beth fydd y penderfyniadau hynny. Byddwn yn gwneud mwy o waith yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig o ran darparu enghreifftiau o’r arferion gorau sydd ar waith ar hyn o bryd, lle mae rhai unigolion eisoes yn gweithio mewn ffyrdd a fydd yn ofynnol o dan y ddyletswydd. Bydd hyn yn dangos gwerthoedd mewn achosion unigol o’r arferion gorau sydd ar waith ar hyn o bryd, ond nid yw’n darparu’r dystiolaeth mewn perthynas â phenderfyniadau a chanlyniadau yn y dyfodol a fyddai’n ein galluogi i gyflwyno amcangyfrif pendant o gyfanswm y gost (na hyd yn oed yr ystod o gostau) ledled Cymru.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i’n hymateb i’r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 4.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried lefelau’r costau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd a bod y rhain yn cael eu cynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yng Nghyfnod 2.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r amcangyfrifon o'r gost o ddatblygu deunyddiau'r hyfforddiant, a'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, mewn perthynas â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd. Cafodd eu paratoi ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, ac yn seiliedig ar ein profiad blaenorol o weithredu deddfwriaeth gymharol, gan gynnwys yr ymgyrch 'Gweithio i Wella' a ddefnyddiwyd i lansio proses gwyno newydd y GIG yn ôl yn 2011.

Wrth ystyried yr argymhelliad hwn, mae'r amcangyfrifon a oedd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael eu hadolygu. Ni chafodd unrhyw dystiolaeth newydd ei chyflwyno yn ystod y broses graffu yng Nghyfnod 1 o ran lefelau'r costau yn y meysydd hyn, ac felly dim ond diwygiadau mân sydd wedi cael eu gwneud i adlewyrchu'n well bwysau chwyddiant wrth gyfeirio at ffigurau o'r gorffennol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, wrth i'r Bil deithio drwy'r broses graffu ac yn ystod y cyfnod gweithredu, er mwyn monitro cost ac ymarferoldeb y cynigion.

**Goblygiadau ariannol**

Bydd unrhyw oblygiadau ariannol, nad ydynt wedi eu rhagweld, yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, yn ystod cyfnod cynllunio'r gyllideb fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y mae eu hangen yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyllidebau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn paratoi dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos effaith newidiadau yn nifer y digwyddiadau ar y gost barhaus sy'n codi o gyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yng Nghyfnod 2.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar y costau cyfreithiol sy'n codi o'r Bil ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng Nghyfnod 2. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos ystod o gostau, lle bo hynny'n briodol.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynnal dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos sut y mae amrywiadau yn y rhagdybiaethau ynghylch nifer y cwynion ychwanegol yn effeithio ar nifer y staff sy'n ofynnol ar gyfer y Corff Llais Dinasyddion newydd a'i gostau rhedeg disgwyliedig. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yng Nghyfnod 2.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol adlewyrchu'r ystod bosibl o gostau TGCh yn hytrach na'r amcangyfrif cost isel.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cael ei osod ar ddiwedd Cyfnod 2, a bydd hwnnw'n cynnwys yr wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani.

**Goblygiadau ariannol**

Bydd unrhyw oblygiadau ariannol, nad ydynt wedi eu rhagweld, yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, yn ystod cyfnod cynllunio'r gyllideb fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y mae eu hangen yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyllidebau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, wrth adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y dylid cynnwys gwybodaeth am fethodolegau a chynnwys penodol yr adolygiad ôl-weithredu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sefyllfa'r llinell sylfaen y gellir mesur ac asesu effaith y Bil yn ei herbyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried cwmpas y rhaglen fonitro a gweithgarwch adolygu a fydd ar waith ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei osod ar ddiwedd Cyfnod 2, a fydd yn cynnwys rhywfaint o fanylion am y fethodoleg a'r dull gweithredu y bwriedir eu defnyddio i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gwerthuso llwyddiant ac effeithiau darpariaethau'r Bil.

**Goblygiadau ariannol**

Bydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, yn ystod cyfnod cynllunio'r gyllideb fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y mae eu hangen yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyllidebau yn y dyfodol.